

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Tachwedd 8, 2022 am 7.30 o'r gloch.**

**Preseanol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Gwenan Owen, Llinos Rowlands, Gareth Ellis, Llinos Williams a Geraint Rowlands. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Elfed ap Gomer ac Eleri Jones.

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Gwenan Owen yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.c.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 8, 2022**

Cynigwyd y cofnodion gan Gwenan Owen ac eilwyd gan Llinos Williams.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Hydref 8, 2022**

Eitem 5.ch. Llythyr (14/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent am ymateb i'r ymgynghoriad Hadroddiad Blynyddol Drafft. Os mae gennym ni ymateb i'w wneud maent ei angen cyn Tachwedd 16.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Eitem 9.d. Llythyr (17/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod dim ond 12 o hyfforddwr sydd ganddynt trwy'r wlad. Y gost i gael hyfforddiant wyneb yn wyneb yw £320 ynghyd â chostau teithio'r hyfforddwr.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (18/10/2022) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at yr Eisteddfod bydd yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2023.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Siec am £430 oddi wrth D.H. Gabriel (24/10/2022). Taliad at Christopher John Rowlands ac Efrys Ann Rowlands - hawl claddu gweddillion o'r amlogfa (£220) + claddu gweddillion o'r amlogfa (£215)..

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 8, 2022

c. Bil (17/10/2022) am £200 oddi wrth John Arfon Owen am gladdu llwch ar 15/10/2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Derbyniwyd bil (26/10/2022) am £22.00 oddi wrth RBI Poppy Appeal am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Llythyr (3/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylion cyflog i glercod am y cyfnod 2022/23.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.84 x 12awr x 12 mis = £1,560.96 y flwyddyn, ar SCP8. Taliad misol i'r Clerc: £104.08; taliad misol i Cyllid a Thollau EM:£26.00.

Mae pwynt SCP8 wedi newid i £11.84 yr awr ddyddiedig Ebrill 1, 2022.

Penderfynwyd rhoi'r cyflog ar £11.84 yr awr. Y cyflog felly fydd £11.84 x 12awr x 12mis = £1,704.96 y flwyddyn. Bydd angen i E.W. Owen a'i Chwmni roi gwybod y taliad i'r Clerc ac i Cyllid a Thollau EM.

dd. Balans yn y banc ar 29/10/2022: £15,199.37. (29/10/2022: £15,648.26).

## **6. Archwilio**

a. Derbyniwyd (17/10/2022) oddi wrth Archwilio Cymru 'Hysbysiad am Gwblhau Archwiliad' a 'Ffurflenni Blynyddol' am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020-2021. Rhoddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan ac ar yr hysbysfyrddau fel oedd angen.

O'r adroddiad mae angen i'r Cyngor derbyn ac ystyried yr adroddiad Archwilio Mewnol cyn iddo gymeradwyo'r Annual Governance Statement (AGS).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (19/10/2022) i'r Archwiliwr am yr adroddiad yn Saesneg. Ni dderbyniwyd ateb.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Ymunodd Delyth a Geraint yn y cyfarfod blynyddol gyda chynghorau cymuned a thref oedd ar Zoom (gweler cofnodion Medi 13, 2022 Eitem 8.c.). Prif destunau y cyfarfod oedd gwaith sy'n cael ei wneud ar y Carneddau a phrojectau'r Parc. Diolchwyd Delyth a Geraint am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (13/10/2022) oddi wrth Mr J. Pike, Bontddu eisiau copy diweddaraf o'n Cofnodion ac adroddiadd cyfrifon yn Saesneg.

Llythyr (12/10/2022) oddi wrth Mr Pike yn rhoi gwybod ei fod wedi gweld y wybodaeth y Cyngor ar ein gwefan. Bydd ei blant yn trosi'r cofnodion i'r Saesneg. Mae angen cyfrifon y Cyngor yn Saesneg.

Rhodddwyd gwybod (12/10/2022) iddo fod y cyfrifon gydag Archwilio Cymru.

b. Llythyr (14/10/2022) oddi wrth Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cynnwys adroddiad ar asedau cymunedol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (17/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd rhaglen Zoom yn cael ei ddefnyddio ar gyfer eu hyfforddiant a chyfarfodydd. Amgáu mae cyfarwyddiadau i ddefnyddio Zoom.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (17/10/2022) oddi wrth Gerallt Griffith yn holi am wybodaeth ar Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor gan Gyngor Gwynedd sydd yn cau dydd Gwener, 28 Hydref. Maent yn awyddus clywed barn y cyhoedd am gynyddu'r dreth ar ail gartrefi a tai gwag hir dymor o ganran uwch na'r lefel bresennol o 100% i uchafswm o 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Cyfeiriad <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Premiwm-Treth-Cyngor.aspx>

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (19/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cynnwys 'Galluogi pobl i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad iddo'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 8, 2022

dd. Llythyr (20/10/2022) oddi wrth Comisiwn Ffiniau i Gymru. Maent wedi cyhoeddi eu cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru ac ar gael ar wefan y Comisiwn. Mae mapiau o bob etholaeth arfaethedig a Phecyn Partneriaid y Comisiwn ar y wefan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (20/10/2022) oddi wrth Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn rhoi gwybod am newyddion Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'r Corff Gwarchod Gwasanaethau Iechyd dros Gogledd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn annog elusen drafft i drafod eu cynlluniau yn llawn. Mae'r Corff wedi annog Elusen Ambiwlans Awyr Cymru i siarad a gwrando ar bobl leol am y newidiadau arfaethedig i leoliadau y gwasanaeth Ambiwlans Awyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (3/11/2022) oddi wrth Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn rhoi gwybod maent yn croesawu bydd sgysiau pellach gyda'r cyhoedd ynglŷn â chynlluniau Ambiwlans Awyr Cymru i leoli'r gwasanaethau Ambiwlans Awyr. Mae CICGC yn aros am fanylion yr ymgysylltu ac mi fydd yn cael ei ranu ar wefan CICGC.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd adroddiad gan Delyth ar gynlluniau Ambiwlans Awyr i leoli eu gwasanaethau.

ff. Llythyr (20/10/2022) oddi wrth Swyddog Gwasanaethau Etholiad, Cyngor Gwynedd yn amgáu hysbyseb am etholiad i lenwi sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Os ni dderbynith llofnod deg etholwr o'r ward am etholiad cyn Tachwedd 11, llenwir y sedd wag gan y Cyngor Cymuned. Mae hyn oherwydd ymoliadau cafwyd gan etholwr yn y gymuned.

Rhoddwyd y rhybudd ar ein hysbysfyrddau ac ar y wefan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (22/1/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cynhadledd ar Bioamrywiaeth bydd yn cael ei gynnal ar 27/10/2022 ar-lein.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (27/10/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni ym mis Tachwedd .

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 8, 2022

i. Llythyr (31/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh dydd Mercher, 9 Tachwedd 2022 gan ddefnyddio Zoom. Amgáu mae linc Zoom, Agenda'r cyfarfod, Cofnodion cyfarfod cyffredinol blynyddol a Chofnodion cyfarfod cyffredin oedd ym Mehefin 29 2022,

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i gynrychiolydd y Cyngor fod yn bresennol yn y cyfarfod.

j. Llythyr (1/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau hyfforddiant am fis Tachwedd / Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

l. Llythyr (7/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cynhadledd Arfer Arloesol dydd Mawrth Rhagfyr 8, 2022 ar thema 'Paratoi Ein Hunain i Ddarparu Trefi a Chymunedau Llwyddiannus a Bywiog'. Amgáu mae Agenda a Ffurflen Archebu. Bydd y gynhadledd ar-lein..

**10. Adroddiad Cynghorydd Gwynedd Mrs Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (12/10/2022) oddi wrth Syrfewr Stadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod perchnogaeth Ysgol Clogau, Bontddu wedi cael ei throsglwyddo i Mr Christopher Martin o Sheffield.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Adroddiad (4/11/2022) 'Taflen Benderfyniad Aelod Cabinet', Cyngor Gwynedd ynglŷn ag Ysgol Clogau yn cael ei drosglwyddo i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

b. Adroddiad (4/11/2022) oddi wrth Cefin Cambell AS i gynghorwyr Cyngor Gwynedd. Gyda Prydain wedi gadael Ewrop mae Cymru am gyflwyno dull newydd o ddarparu cymorth amaethyddol trwy Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a bydd yn cael ei alw'n 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy'. Mae disgwyl bydd amcanion y Bil wedi ei gwblhau ym mis Ionawr 2023.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen rhoi sylw i ffordd Cwm Hirgwm gydag ochr y ffordd yn rhoi ger Llechfraith.

ch. Mae cynllun i roi llinellau dwbl ar y ffordd sy'n arwain i Swn y Nant, Bontddu.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 8, 2022

d. Mae teclyn mesur cyflymder traffic wedi cael ei osod ar ffordd A496 ger Bont Bontddu.

dd. Mae Priffyrdd yn ymchwilio i leoliad arwyddion ffordd sydd wrth Bryn Melyn, Taicynhaeaf.

**11. Materion Brys**

Nid oedd materion brys.

-----